# COFNODION CYFARFOD CYNGOR CYMUNED LLANILAR
a gynhaliwyd ar y 4 Mehefin 2019
am 8.00y.h.

**PRESENNOL:- Cynghorwyr:- Rowland Jones, Ann Tudor, Dewi Rattray, Meic Francis, Caredig Jones, Meirion Davies, Richard Davies, John Davies, Ada Evans**

**ABSENOLDEBAU:** Dylan Edwards

Rhoddwyd croeso cynnes i gyfarfod Mis Mehefin gan y Cadeirydd Rowland Jones.

Dachraeodd y cyfarfod 8 o'r gloch. Darllenwyd cofnodion Mis Mai, cynigwyd eu bod yn gywir gan y Cyng. Ann Tudor ac fe eiliwyd gan y Cyng. Dewi Rattray.

18/1068 - MATERION YN CODI
1. Rhoddwyd diolch i Hugh Tudor, y Cyng. Ann Tudor a'r Cyng. Dewi Rattray a wnaeth trefnu gasglu a danfon y polyn banner i'r ysgol gynradd yn y pentref.

18/1069 - LLYTHYRON
1. Ebost wrth Tanya Friswell, Pentir Plynlimon yn son am dwristiaeth yn ein hardal.
2. Cofnodion Cyfarfod Adran Cynllunio'r Cyngor Sir.
3. Llyfryn Gladson Services.
4. Manylion Seremoni Cyhoeddi Eisteddfod Ganedlaethol Ceredigion 2020.
5. Negeseuon Un Llais Cymru a chyflwynwyd gan y Cyng. Meic Francis gan gynnwys aelodaeth CAVO.

18/1070 – ARIANNOL
1. Cyflog y Clerc Miss Mai £133.26. Cynnigwyd i'w dalu gan y Cyng.John Davies ac fe eiliwyd gan y Cyng.Ann Tudor.
2. Cyflog y Clerc Miss Mehefin £133.26. Cynnigwyd i'w dalu gan y Cyng.John Davies ac fe eiliwyd gan y Cyng.Richard Davies.
3. Yswiriant flynyddol y Cyngor Cymuned £805.36. Cynnigwyd i'w dalu gan y Cyng.Meic Francis ac fe eiliwyd gan y Cyng.Caredig Jones.

18/1071 – CYNLLUNIO
Nid oes unrhyw gais wedi derbyn, ond mae'r cynghorwyr yn ymwybodol o un neu ddau gais yn yr ardal ar hyn o'r bryd; er nad ydym wedi derbyn manylion. Ofynnwyd i'r clerc cysylltu â'r adran cynllunio'r cyngor sir ynglŷn â hyn.

18/1072 - UNRHYW FATER ARALL
1. Mae'r goeden wrth ymyl bont yr Adail yn y pentref yn gordyfu eleni eto. Ofynnwyd i'r clerc gysylltu â pherchennog y tir/goeden ynglŷn â hyn.
2. Ofynnwyd a oedd modd anfon llythyr i berchennog y cerbyd sy'n parcio ar balmant wrth ymyl mynedfa'r cylchfan. Nid yw'n lle diogel i barcio.
3. Nodwyd fod cwn yn dianc o ardd un o'r tai yn sgwâr y pentref; codwyd consyrn gan drigolion y pentref can bod y cwn yn rhedeg ar y ffordd a lawr at yr hen station yard. Gallent achosi damwain. Mi fydd y clerc yn edrych i mewn i hyn yn bellach.

Orffenwyd y gyfarfod am 9pm